

Canllaw i reolyddion ar wrandawiadau addasrwydd i ymarfer yn ystod y pandemig Covid-19

Mae'r Awdurdod Safonau Proffesiynol yn goruchwyllo gwaith y deg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol. Yn rhan o'n gwaith, rydym yn adolygu perfformiad y rheolyddion o ran bodloni eu dyletswyddau i ddiogelu'r cyhoedd ac archwilio penderfyniadau eu paneli addasrwydd i ymarfer i sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiogelu'r cyhoedd.

Cyflwyniad

Yn dilyn y cyfyngiadau symud a gyhoeddwyd gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig ym Mawrth 2020 mewn ymateb i'r pandemig coronafeirws, fe seibiodd y mwyafrif o'r rheolyddion iechyd a gofal cymdeithasol eu gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer sylweddol.

Yn ystod y cyfnod hwn mae rheolyddion wedi parhau i gynnal rhai gwrandawiadau trwy gyswllt fideo, gan alluogi cyfranogwyr i fynychu o amrywiol leoliadau pell yn defnyddio darpariaeth megis Zoom. Roedd y rhain yn dueddol o fod yn wrandawiadau cymharol syml, ble roedd yna ddi-ddordeb cyhoeddus brys yn eu cynnal ac yn cynnwys gwrandawiadau adolygiad a gwrandawiadau gorchmynion dros dro. Fodd bynnag, rydyn ni'n ymwybodol bod rhaid rheolyddion wedi cynnal gwrandawiadau sylweddol cymharol syml yn ystod y cyfnod hwnnw.

Er bod hyn yn ymateb angenrheidiol ar y pryd, ni chredwn ei fod yn gynaliadwy yn y tymor hwy. Mae seibio gwrandawiadau yn arwain at ôl-groniad o achosion a gallai oedi camau angenrheidiol i ddiogelu'r mwyafrif o gofrestryddion, neu i ddychwelyd cofrestryddion i ymarfer a bydd yn cynyddu'r straen mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn ei deimlo. Felly rydym yn croesawu bwriad y deg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol i ailgychwyn gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer sylweddol yn yr wythnosau nesaf.

Rydym hefyd yn cydnabod nad yw'r pandemig wedi dod i ben eto ac, o ganlyniad, y gallai fod yn anodd i reolyddion gynnal yr un nifer o wrandawiadau ffisegol (gyda'r holl bartïon yn mynychu'r un lle). Mae hyn yn golygu bod angen i'r rheolyddion edrych ar ddewisiadau eraill, fel mwy o ddefnydd o fideo (trwy ddarpariaethau cyswllt fideo fel Zoom) a gwrandawiadau 'hybrid' ble bydd rhan o'r gwrandawriad yn digwydd mewn un lleol a'r gweddill yn rhithiol.

Nid ydym wedi clywed am unrhyw bryderon difrifol o ran gweithredu'r rhith wrandawiadau sydd wedi eu cynnal ers y cyfyngiadau symud. Fodd bynnag, mae pryderon wedi eu mynegi gan gyrff cynrychioli'r cofrestryddion ynghylch goblygiadau defnydd mwy eang o wrandawiadau o'r fath.

Mae'r pryderon hyn yn ymwneud â:

- Diffyg ymgynghori ynghylch defnydd eang o wrandawiadau o'r fath, a'r effaith ar yr hawl i brawf teg dan y Ddeddf Hawliau Dynol (Erthygl 6)
- Preifatrwydd cofrestryddion a thystion a'r perygl y gellir recordio clipiau o wrandawiadau a gynhelir trwy gyswllt fideo a'u rhyddhau ar y rhyngwrwyd os oes mynediad cyhoeddus i'r gwrandawiadau
- Anawsterau o ran cadarnhau hunaniaeth tystion ac i ba raddau y gall y panel asesu bod eu tystiolaeth yn ddilys pan nad yw tystion yno'n bersonol, neu sicrhau nad ydynt yn cael eu hyfforddi
- Efallai y bydd rhai partion, rhai ohonynt yn fregus neu gyda nodweddion gwarchoddedig, yn ei chael yn anodd ymgysylltu gyda'r dechnoleg ac fe allai hyn effeithio ar ansawdd eu tystiolaeth
- Sefydlogrwydd technegol y llwyfannau
- P'un a fydd gwrandawiadau'n cael eu recordio ac, os felly, y trefniadau ar gyfer perchnogaeth, dargadw a storio'r recordiad.
- Diffyg arweiniad ynghylch y prosesau i benderfynu a ddylid cynnal clywed achosion yn rhithiol.

Mae'r canllaw hwn yn sefydlu disgwyliaidau'r Awdurdod Safonau Proffesiynol o ran rhith wrandawiadau ac yn ceisio annog ymagwedd gyson rhwng rheolyddion. Nid yw'n drech na hawliau cyfreithiol cofrestryddion na'r rheolau sy'n llywodraethu cynnal gwrandawiadau addasrwydd i ymarfer. Rydym yn ymwybodol y gallai'r llysoedd farnu ar rai o'r materion uchod.

Fe edrychom ar ganllaw Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn sefydlu ei ymateb i'r pandemig presennol. Credwn fod tebygrwydd o ran y materion mae'r llysoedd a phaneli rheolyddion yn wynebu, er ein bod yn cydnabod bod gan reolyddion lai o bwerau gorfodi parthed camddefnydd o gyfryngau cymdeithasol gan y rhai sy'n arsylwi'r gwrandawiadau. Rydym hefyd wedi nodi bod rhai rheolyddion wedi cyhoeddi arweiniad ar sut y byddant yn cynnal gwrandawiadau o bell.

Cynhaliom drafodaethau gyda'r deg rheolydd iechyd a gofal cymdeithasol hefyd, a gyda chyrrff yn cynrychioli cofrestryddion; ac fe ystyriom gasgliadau o ymchwil defnyddwyr a gomisiynwyd gennym yn ddiweddar gan Community Research¹, oedd yn archwilio barn y cyhoedd ar ddewisiadau amgen i wrandawiadau panel traddodiadol.

Wrth ystyried y pwyntiau a godwyd, fe ystyriom:

- Ni chafwyd unrhyw bryderon difrifol am wrandawiadau sydd wedi eu cynnal o bell hyd yma, wrth nodi bod y gwrandawiadau hyn wedi bod yn gymharol syml yn gyffredinol, fel arfer yn cynnwys dim ond y panel a chyfreithwyr
- Mae rhai paneli rheolyddion wedi clywed tystiolaeth gan dystion trwy gyswllt fideo ers nifer o flynyddoedd, ac nid ydym wedi clywed pryderon bod tystiolaeth o'r fath yn llygredig

¹ The patient and public perspective on future fitness to practise processes (Mai 2020). Ceisiodd yr ymchwil hwn farnau'r cyhoedd ar ddatrys achosion addasrwydd i ymarfer heb ddefnyddio gwrandawiadau. Er nad oedd hyn yn ystyried rhith wrandawiadau'n benodol, mae'r barnau a fynegwyd yn berthnasol.

- Gallai unigolion sy'n mynychu gwrandawiadau ffisegol eu recordio a'u cyhoeddi ar y rhyngwyd, er ei bod yn llawer haws arsylwi ac atal hyn
- Efalla y bydd rhith wrandawiadau yn fwy cyfleus i rai cofrestryddion a phobl fregus (yn arbennig y rhai sy'n cysgodi ac sydd â chyfrifoldebau gofal) ac arbed costau, ond gall hefyd achosi anawsterau i bobl nad ydynt yn gyfarwydd gyda neu nad oes ganddynt fynediad i dechnoleg

Defnyddio'r canllaw hwn

Byddwn yn ystyried y canllaw hwn wrth asesu perfformiad y rheolyddion trwy ein hadolygiadau perfformiad. Mae'n berthnasol yn benodol i'n hasesiadau o berfformiad parthed y Safonau Rheoleiddio Da sy'n berthnasol i Addasrwydd i Ymarfer, yn arbennig felly Safonau 15 (sicrhau bod ymchwiliadau yn deg ac amserol), 16 (sicrhau y gwneir penderfyniadau mewn modd teg gan flaenoriaethu diogelwch y cyhoedd) a 18 (sicrhau bod pob parti yn cael cefnogaeth i gymryd rhan yn y broses).

Dull gweithredu'r Awdurdod

Mae'r Awdurdod yn ystyried bod yna ddiddordeb lles y cyhoedd cryf mewn clywed achosion addasrwydd i ymarfer n fuan ac y dylai fod yn bosibl i'r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau o'r fath, p'un ai trwy fynychu gwrandawriad ffisegol yn bersonol neu trwy arsylwi gwrandawiadau pell ar-lein.

Rydym yn cydnabod bod y pandemig presennol wedi cyflwyno heriau arwyddocaol. Nid ydym wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu na ddylai gwrandawiadau ar-lein fod yn rhan o ymagwedd y rheolyddion i ddatrys y mater, ac nid ydym yn ystyried bod y pryderon a godwyd yn awgrymu bod yna broblemau na ellir eu datrys.

Fodd bynnag, bydd y pryderon yn fwy dyrus mewn rhai achosion nag eraill ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd rhesymau pam na fyddai gwrandawriad ar-lein yn addas. Dylai'r rheolyddion asesu os gellir cynnal gwrandawriad o bell ar sail fesul achos, ond dylai wneud hynny gan gyfeirio at feini prawf a chanllaw diffiniedig. Disgwyliwn i'r rheolyddion weithio ar y cyd â'i gilydd, cofrestryddion a chyrrff cofrestryddion a chleifion, yn ogystal â'r Awdurdod, i ddatblygu system gadarn ar gyfer rhestru a chynnal gwrandawiadau.

Disgwyliwn i reolyddion dalu sylw dyledus i gasgliadau'r ymchwil gan Community Research, ac o ymchwiliadau ac archwiliadau cyhoeddus diweddar yn ystyried sut fydd cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu, cynnwys a chefnogi fel fo'n briodol. Yn y cyfnod hwn, credwn ei bod yn bwysig y delir gyda phryderon a godir gan gofrestryddion ac eraill gyda hyblygrwydd, sensitifrwydd a chydweithrediad.

Ystyriaethau cyffredinol ar gyfer rheolyddion

Dylai'r rheolyddion dalu sylw i'r canlynol wrth ystyried eu polisiau ar gyfer gwrandawiadau:

- yr amcan cyffredinol a sefydlwyd yn y Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diogelwch ac Ansawdd) 2015 a'i thair cangen
 - (a) i ddiogelu iechyd, diogelwch a lles y cyhoedd;
 - (b) i gynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiwn dan sylw; ac
 - (c) gynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau o'r proffesiwn hwnnw
- gweinyddiad teg cyfiawnder
- mesurau diogelwch i sicrhau cywirdeb y broses ac y gellir osgoi toriadau cyfrinachedd amhriodol
- pwysigrwydd sicrhau y cynhelir gwrandawiadau ffisegol yn ddiogel ar gyfer staff y rheolydd, y panel a'r partïon sy'n rhan o'r gwrandawriad a chydymffurfio gydag arweiniad y Llywodraeth, yn cynnwys cadw pellter cymdeithasol a mesurau eraill i reoli heintiau
- Yr effaith ar unigolion bregus a'r rhai gyda nodweddion gwarchoddedig dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Mynediad i'r cyhoedd i wrandawiadau

Credwn, yn gyffredinol, na ddylai fod yn anoddach i'r cyhoedd arsylwi gwrandawiadau nag yr oedd cyn y pandemig. Credwn, fel gyda'r system cyfiawnder sifil a throreddol, fod gwrandawiadau cyhoeddus agored yn allweddol i gynnal hyder yn y system.

Nodwn y dyfyniad canlynol o Ganllaw'r Llysoedd Teulu. Er ein bod yn nodi bod gan y Llys bwerau i weithredu dan amgylchiadau o'r fath, rydym o'r farn bod y dedfrydau terfynol yn nodi'r mater allweddol yma.

Mae Adran 53 y Ddeddf yn darparu ar gyfer addasiadau dros dro o Ddeddf y Llysoedd 2003 sy'n ei gwneud yn drosedd i (a) recordio darllediad o'r llys sydd wedi ei gyfarwyddo i'r diben o alluogi'r cyhoedd i weld a chlywed yr achos a (b) dan unrhyw amgylchiadau i recordio neu ddarlledu deunydd a gaffaelwyd trwy gymryd rhan mewn dolen fyw. Er bod peryglon o hyd o ran diogelwch, mae'n amlwg tu hwnt i bob amheuaeth bod yr angen i gadw'r system cyfiawnder teuluol ar ryw lun yn drech nag yn yr amgylchiadau digynsail cyfredol, y pryderon diogelwch o wneud hynny gyda methodoleg o bell 'oddi ar y silff'. Ni ellir caniatáu i'r perffaith fod yn elyn i'r cyfiawn.

Mae dewisiadau i alluogi'r cyhoedd i fynychu gwrandawiadau yn cynnwys:

- caniatáu i'r cyhoedd arsylwi'r broses dros y rhyngwyd, o bosibl gyda gofynion iddynt gofrestru a darparu unrhyw fanylion cyfryngau cymdeithasol ac, ym mhob achos, gofyniad i dderbyn na ddylid recordio na chyhoeddi achosion ar wahân i'r hyn a fyddai'n bosibl mewn gwrandawriad ffisegol. Ym mhob achos, ni ddylai'r cyhoedd allu gweld dogfennau cyfrinachol, dylid eu hatal rhag arsylwi rhannau o'r gwrandawriad a gynhelir yn breifat, gael mynediad mewn modd nad yw'n eu galluogi i amharu ar neu geisio cymryd rhan yn yr achos ac y gellir eu bwrw allan am ymddygiad amhriodol

- ffrydio'r gwrandawriad yn adeilad y gwrandawiadau neu amgylchedd neu amgylcheddau eraill y gellir eu rheoli, fel mai dim ond yn y fan a'r lle y gellir gwyllo gwrandawiadau, gyda mesura diogelwch tebyg
- presenoldeb gan gadw pellter cymdeithasol yn ystafell y gwrandawriad ei hun, pan fydd canllaw'r Llywodraeth yn caniatáu hynny. Fodd bynnag, ble mae hyn yn cael effaith faterol ar gapasiti, dylid dal i wneud trefniadau ar gyfer presenoldeb o bell.

Efallai yr hoffai rheolyddion ystyried y gwerth mewn canfod a rhannu lleoliadau amgen ble gallant gynnal gwrandawiadau – o ystyried yr effaith y bydd cadw pellter cymdeithasol yn ei gael ar y gofod swyddfa sydd ganddynt ar hyn o bryd.

Gwarediadau Cydsyniol

Mae gan rai rheolyddion bwerau i waredu ar fater sydd wedi ei gyfeirio ar gyfer gwrandawriad terfynol trwy warediadau neu gyfarfodydd cydsyniol. Efallai y bydd hyn yn briodol a phragmatig mewn rhai amgylchiadau. Fodd bynnag, rydym yn annog gofal wrth ddefnyddio'r llwybr hwn ble mae angen gwrandawriad er lles y cyhoedd, ble nad yw'r mater yn bodloni meini prawf safonol y rheolydd ar gyfer defnyddio dull o'r fath ac/neu os nad yw'r achos yn addas ar gyfer gwarediad cydsyniol. Ni chredwn ei bod yn briodol i reolyddion ddatblygu dull gwahanol er mwyn gallu delio ag achos oherwydd y pandemig yn unig.

Materion i'w hystyried wrth bennu'r math o wrandawriad

Mae risgiau gwahanol i wrandawiadau ar-lein a ffisegol. Rydym wedi cyfeirio at y pryderon parthed gwrandawiadau ar-lein, ond mae gwrandawiadau ffisegol hefyd yn cyflwyno heriau ar hyn o bryd, yn arbennig i unigolion sy'n wynebu mwy o risg wrth deithio i wrandawriad neu sydd â chyfrifoldebau gofal.

Bydd angen penderfynu ar y dull priodol ar sail fesul achos. Fodd bynnag, mae'n allweddol bod rheolyddion yn darparu arweiniad clir i swyddogion rhestru a phaneli ynghylch y ffactorau sydd angen ei hystyried er mwyn gwneud penderfyniad priodol.

Credwn y dylai rheolyddion ystyried y materion canlynol wrth benderfynu pa fath o wrandawriad sy'n briodol ar gyfer pob achos:

- Os oes gan y cofrestrydd a chyfranogwyr eraill fynediad digonol i a dealltwriaeth o dechnoleg i'w galluogi i gymryd rhan yn effeithiol mewn rhith wrandawriad, yn cynnwys cael mynediad at gyngor
- Os oes rheswm i amau bod yna risgiau o ran torri cyfrinachedd – gallai'r rhain godi ble mae'r ffeithiau yn sensitif, yn arbennig os ydynt yn cynnwys materion meddygol personol neu rywiol neu bobl fregus, mae'r achos wedi denu sylw'r wasg neu mae yna nodweddion penodol o ran y rhai sy'n rhan o'r achos sy'n awgrymu risg uwch
- Unrhyw nodweddion o'r achos sy'n ei gwneud yn arbennig o anodd ei gynnal o bell - e.e. anawsterau o ran cyflwyno tystiolaeth
- Unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y gallai fod perygl i gywirdeb neu degwch y gwrandawriad o gynnal rhith wrandawriad

- Effaith unrhyw anabled neu fregusrwydd arall ar unrhyw rai o'r cyfranogwyr
- Y gallu i sicrhau bod y gwrandawriad yn cydymffurfio gyda chanllawiau'r Llywodraeth ar ddiogelwch pawb dan sylw
- Materion eraill a fyddai'n debygol o effeithio ar gywirdeb neu gynnal y gwrandawriad yn ddidrafferth.

Proses wrth bennu'r math o wrandawriad

Mae'n debyg y gellir gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau ar fformat y gwrandawriadau gan swyddogion rhestru o fewn y rheolyddion mewn ymgynghoriad â'r partion. Fodd bynnag, dylai rheolyddion gael darpariaethau sy'n galluogi gwneud penderfyniadau terfynol. Gallai hyn fod gan baneli neu gan Gadeiryddion trwy wrandawriadau rheoli achosion.

Dylai'r rheolyddion ddarparu arweiniad sy'n sefydlu'r broses o wneud penderfyniadau ac yn sicrhau bod gan bob parti gyfle i godi pryderon a chyflwyno tystiolaeth ar gyfer ystyriaeth.

Cynnal rhith wrandawriadau

Credwn y byddai'n briodol i reolyddion adeiladu ar eu profiad gyda rhith wrandawriadau i ddarparu rhywfaint o arweiniad ymarfer da ar gyfer cynnal gwrandawriadau o'r fath a darparu hyn i bob parti – yn arbennig i gofrestryddion a thystion. Gallai hyn gynnwys:

- Trefniadau ar gyfer sicrhau bod y ffactorau a arweiniodd at y penderfyniad i gynnal y gwrandawriad ar fformat penodol yn cael eu cadw dan adolygiad trwy gydol y broses ac y gellir newid neu addasu'r trefniadau os oes angen
- Mynediad i'r cyhoedd i'r gwrandawriad
- Trefniadau ar gyfer trafodaethau preifat rhwng cofrestryddion a'u cynrychiolwyr ac i'r panel fwrw ymlaen a thrafod yn breifat
- Trefniadau ar gyfer darparu cyngor a chefnogaeth i gofrestryddion a thystion ynghylch y broses
- Cynnal y gwrandawriad yn effeithlon, yn cynnwys mynediad diogel a pharod i ddogfennau a deunydd na ddefnyddiwyd, a fydd yn weladwy ar y sgrin yn ystod y gwrandawriad, gan godi ebychiad neu bryderon (er enghraifft, ynghylch ansawdd y llun neu sain) pan fydd parti arall yn siarad
- Materion ymarferol yn cynnwys sut bydd y tyst yn tyngu llw neu gadarnhad a disgwyliadau o ran gwisg, ymddygiad a lleoliad yn ystod y broses
- Arweiniad ar yr angen i gael egwylliau rheolaidd yn ystod y gwrandawriad ac ar ba mor aml y gallai'r rheiny fod
- Unrhyw drefniadau ar gyfer recordio'r gwrandawriadau ac ar gyfer perchnogaeth, dargadw a storio'r recordiad ac, yn arbennig, i sicrhau y rhoddwyd ystyriaeth lawn i oblygiadau GDPR.

Efallai yr hoffai'r rheolyddion ddarparu pecynnau briffio neu hyfforddiant i Gadeiryddion ac aelodau eraill y panel ynghylch ymarfer da.

Efallai yr hoffai rheolyddion hefyd gyhoeddi datganiadau neu ganllaw ynghylch unrhyw newidiadau i'r trefniadau ar gyfer gwrandawiadau ffisegol (er enghraifft, i ystyried cadw pellter cymdeithasol) neu wrandawiadau hybrid i sicrhau bod y materion a sefydlir yma yn cael eu hystyried.

Ar gyfer y dyfodol

Nid yw gwrandawiadau wedi eu cynnal trwy gyswllt fideo i'r fath raddau â hyn o'r blaen. Yn anochel, bydd yna ddysgu i ddod o'r profiad. Rydym yn annog:

- Bod cyrff cynrychioli yn gweithio'n agos gyda rheolyddion i sicrhau y gellir cynnal gwrandawiadau unigol yn ddiogel, yn deg ac yn effeithlon
- Bydd rheolyddion yn ymgynghori'n eang ar broses a chanllaw
- Mae cyfle i asesu'r broses a gwneud newidiadau o ganlyniad i brofiad
- Cesglir barnau pob parti yn y gwrandawiadau, cleifion a'r cyhoedd.

Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu'r arweiniad hwn ac yn ceisio barnau ar sut mae'n parhau i fod yn briodol ym Mawrth 2021, oni bai bod yna dystiolaeth i awgrymu bod angen gwneud hynny a fwy o fyrder. Byddwn yn asesu os yw'r rheolyddion wedi talu sylw iddo yn rhan o'n proses adolygu perfformiad.

Awst 2020